# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 18 Ionawr 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett;

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: D.M. Cundy a K. Lloyd;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol;
J. Corner, Swyddog Technegol;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 11.20 yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. COFNODION - 21AIN RHAGFYR 2020**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. DARPARU GWASANAETHAU BWYD A BWYD ANIFEILIAID 2020-2021**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad yn manylu ar gynllun arfaethedig ar gyfer gwaith rheoli bwyd a bwyd anifeiliaid ymgynghorol/swyddogol yn seiliedig ar ganllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd hyd at 31 Mawrth 2021. O ganlyniad i COVID-19 roedd swyddogion o'r adain Diogelwch Bwyd ac Iechyd, a fyddai fel arfer yn gweithredu'r rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol (archwiliadau), wedi bod ynghlwm â'r gwaith o weithredu deddfwriaeth berthnasol COVID dros y chwe mis diwethaf. Roeddent hefyd wedi cael eu symud/secondio i'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau. Fodd bynnag roedd y tîm Bwyd, Diogelwch ac Iechyd bellach mewn sefyllfa lle gellir adfer a gweithredu rheolaethau ymgynghorol/swyddogol ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi darparu canllawiau yn ddiweddar ar gyfer darparu rheolaethau bwyd swyddogol yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i gymeradwyo'r cynigion ar gyfer rheolaethau ymgynghorol/swyddogol mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid hyd at 31 Mawrth 2021.**

**7. CYNLLUN DIGARTREFEDD TROSIANNOL**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith barhaus COVID-19 ar y ddarpariaeth o ran digartrefedd, yn enwedig o ran pobl sengl, cais i Lywodraeth Cymru am gyllid i helpu i ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r galw ychwanegol a chynlluniau i ailgartrefu a chefnogi pobl sengl sy'n ddigartref yn enwedig dros y 12 mis nesaf ac yn y dyfodol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i barhau i ariannu darpariaeth gwely a brecwast ychwanegol o'r Ddarpariaeth Frys ar gyfer Digartrefedd. Byddai hyn yn cyfateb i tua £350,000 erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 nodi effaith barhaus Covid-19 ar y ddarpariaeth o ran digartrefedd;**

**7.2 nodi canlyniad y cais i Lywodraeth Cymru am gymorth ychwanegol a'r cynnydd a wnaed o ran cynlluniau digartrefedd yr Awdurdod;**

**7.3 cymeradwyo amrywio'r Polisi Mynediad i Dai Cymdeithasol i gynnal ymarferiad peilot i helpu i ailgartrefu pobl sengl sy'n ddigartref mewn tai o blith stoc y Cyngor gan gynnwys:**

- **Defnyddio 6 fflat gwag dwy ystafell wely ar y llawr uchaf ar gyfer pobl sengl; a**
- **Defnyddio 3 tŷ gwag lle rhoddir cyfle i ddau berson sengl rannu tenantiaeth;**

**7.4 bod astudiaeth yn cael ei chynnal gyda'r nod o brynu llety yn y sector preifat sy'n addas i berson sengl fel rhan o gynlluniau cyffredinol yr Awdurdod i gynyddu nifer y stoc.**

**8. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2021/2022 I 2023/24**

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar y Strategaeth Cyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am broses y gyllideb, crynodeb o setliad presennol dros dro Llywodraeth Cymru ac amserlen y setliad terfynol ac yn clustnodi'r gwasgfeydd dilysu a'r gwasgfeydd cyllidebol y byddai'n rhaid i'r Aelodau roi sylw iddynt wrth bennu cyllideb refeniw'r flwyddyn nesaf. Byddai'r adroddiad yn sail i'r

broses ymgynghori ar y gyllideb a fyddai'n cael ei chynnal yn ystod Ionawr a Chwefror 2021.

Nododd yr adroddiad, ar ôl yr addasiadau ar gyfer trosglwyddiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, fod y cynnydd yn y setliad dros dro ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 3.8% (£10.466 miliwn). Felly, roedd y Cyllid Allanol Cyfun wedi cynyddu i £284.820 miliwn yn 2021/22 a oedd yn cynnwys £244k mewn perthynas â chyflog athrawon.

Er bod llawer o waith eisoes wedi'i wneud wrth baratoi'r gyllideb, nodwyd mai dim ond datganiad sefyllfa cychwynnol oedd yr adroddiad hwn a fyddai'n cael ei ddiweddaru dros y misoedd i ddod wrth i'r gyllideb gael ei datblygu ymhellach, wrth ymgysylltu ag aelodau'r cyngor, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus a derbyn y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru ar 2 Mawrth 2021.

Diolchodd yr Arweinydd i holl staff y Cyngor am eu hymroddiad a'u gwaith caled yn cynnal gofal a chymorth i gymunedau Sir Gaerfyrddin yn ystod y pandemig Covid presennol. Ychwanegodd, er ei fod yn cydnabod y rhesymau, o ran doethineb a chyfrifoldeb cyllidol, pam fod swyddogion yn argymell 4.89% ar gyfer y Dreth Gyngor yn yr adroddiad, rhoddodd gynnig gerbron, sef wrth ystyried yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â Covid 19 a'i effaith ar gynifer o bobl yn y sir, y dylid gostwng y Dreth Gyngor i 4.48%. Eiliwyd y Cynnig.

Eglurwyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r gostyngiad arfaethedig o 4.48% yn y Dreth Gyngor yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o gwblhau'r gyllideb dros y mis nesaf ar y cyd â'r adborth o'r ymgynghoriad. Byddai'r cynigion a'r opsiynau terfynol ynghylch y gyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ddiwedd mis Chwefror, gan felly sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi ac, yn amodol ar ostwng y Dreth Gyngor i 4.48% [yn hytrach na 4.89% fel y nodwyd yn yr adroddiad], bod strategaeth y gyllideb 2021/22 hyd at 2023/24 yn cael ei chymeradwyo fel sylfaen i ymgynghori, a bod ymgais benodol yn cael ei gwneud i gael sylwadau gan ymgyngoreion ynghylch y cynigion effeithlonrwydd y manylwyd arnynt yn Atodiad A i'r adroddiad.**

## 9. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) - 2021/22 - 2025/26

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y cynigion diweddaraf ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 22021/22 hyd at 2025/2026, a fyddai'n sail i'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb gyda'r aelodau a phartïon perthnasol eraill. Byddai adborth o'r broses ymgynghori hon, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau ar ffigurau'r setliad a cheisiadau am grant, yn llywio adroddiad terfynol cyllideb y Rhaglen Gyfalaf a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Chwefror 2021 a'r Cyngor Sir ym mis Mawrth 2021.

Nodwyd mai £127.1m oedd gwariant gros arfaethedig y rhaglen gyfalaf am 2021/22. Y bwriad oedd i'r Cyngor Sir gyllido £63.854m o'r rhaglen drwy ddefnyddio benthyciadau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn a'r grant cyfalaf cyffredinol a bod y £63.239m oedd yn weddill yn dod o ffynonellau allanol. Roedd y ffigurau hyn yn cynnwys prosiectau a gafodd eu gohirio yn 2020/21, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau Covid-19, a oedd wedi cael eu trosglwyddo a'u cynnwys yng nghyllidebau'r blynyddoedd i ddod.

Rhagwelwyd y byddai'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu'n llawn dros y pum mlynedd. Roedd yn cynnwys gwariant disgwyliedig ar brosiectau Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe y byddai'r awdurdod yn benthyca yn eu herbyn, gyda'r cyllid yn cael ei ddychwelyd gan lywodraethau Cymru a'r DU dros gyfnod o 15 mlynedd (o 2018/19).

Er y mynegwyd siom ynghylch y cynnig i leihau cyllid y Cyngor ar gyfer Llwybr Dyffryn Tywi oherwydd anawsterau yn sicrhau cyllid allanol, rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd bod yr Awdurdod yn parhau'n gwbl ymrwymedig i'r prosiect, yn enwedig o ran teithio diogel, ac y byddai'n parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth Cymru am gymorth.

**PENDERFYNWYD yn UNFRYDOL i gymeradwyo'r adroddiad fel rhaglen gyfalaf dros dro at ddibenion ymgynghori, gan gynnwys ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror.**

**10. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**